



Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

CYFOETH NATURIOL CYMRU

Penodi 2 Aelod o'r Bwrdd

Dyddiad Cau: 9 Awst 2018



**The Commissioner for
Public Appointments**

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Swyddogaeth Aelod

Atodiad B: Swyddogaeth a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad C: Y broses ddewis

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn bod yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae aelodau'r Bwrdd yn cefnogi'r polisïau a'r camau strategol ehangach a bennir gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion swyddogaeth a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru a swyddogaeth aelodau'r bwrdd a manyleb y person. I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-07c24e9e99a5/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar y swydd wag *Cyfoeth Naturiol Cymru - Penodi 2 Aelod o'r Bwrdd* ac wedyn ar 'Gwneud Cais' yn y gornel chwith ar waelod y dudalen. Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith bydd yn rhaid i chi gofrestru, a byddwch yn gweld yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eich cais ac unrhyw geisiadau eraill y byddwch yn eu gwneud, trwy eich cyfrif cofrestredig.

Pan fyddwch wedi cofrestru, byddwch yn gallu mynd i'r ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi uwchlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno o'ch swydd bresennol neu ddiweddaraf, gan nodi am faint o amser y buoch chi yn y swydd. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol.

I gwblhau cais yn y Gymraeg, gwnewch yn siŵr eich bod yn pwysu 'Gwneud cais' ar ochr dde'r dudalen hon (yn hytrach na phwysu 'Apply' ar y dudalen Saesneg)."

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau:	Dydd Iau 9 Awst 2018
Creu'r rhestr fer:	Yn gynnar i ganol mis Medi 2018
Cyfweliadau:	24 a 25 Medi 2018

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus fod ag aelodau sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru – pobl o bob cefndir – ar eu bwrdd er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru yn annog amrywiaeth eang o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Croesewir ceisiadau yn arbennig gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarant Cyfweliad – Yn Gadarn o blaid Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r rhaglen Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen

Cyfoeth Naturiol Cymru

gais hefyd yn eich galluogi i roi manylion unrhyw anghenion neu offer penodol sydd eu hangen arnoch i ddod i gyfweiliad.

Cynnwys:

Am ragor o fanylion ac i wneud cais, ewch i <http://wales.gov.uk/publicappointments> neu i ymholiadau, cysylltwch â thîm Odgers Berndtson yng Nghaerdydd ar 02920 783 0501 neu e-bostiwch publicappointments@gov.wales.

Penodi Aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym yn chwilio am bum

aelod newydd o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Swyddogaeth y Bwrdd

Penodir Bwrdd CNC gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n gyfrifol am ddatblygu, cymeradwyo a monitro strategaeth tymor hir ar gyfer CNC er budd ysgwyddo'i ddyletswyddau statudol.

Manyleb y Person

Rhaid i bob ymgeisydd feddu ar y sgiliau ac arfer yr ymddygiadau canlynol:

- Parchu a deall egwyddorion atebolrwydd a llywodraethiant da
- Ymwybyddiaeth o'i hun a'r sefydliad
- Pwyso a mesur wrth benderfynu ar faterion cymhleth
- Meddwl yn strategol
- Gwrando mewn ffordd weithredol
- Meddwl agored a meddwl annibynnol
- Bod yn flaengar a threiddgar, yn rhesymegol ac yn greadigol
- Profiad o roi cyngor ar sail eich profiad eich hun, ond yn gyfforddus ac yn hyderus cynnal trafodaeth ar amrywiaeth eang o bynciau
- Ymrwymiad amlwg i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Hanes o ffurfio perthynas gref a chydweithredol ag unigolion a chyrrff

Manylebau'r Rôl

Rydyn ni'n chwilio hefyd am bobl sydd â'r sgiliau canlynol ar lefel uwch

- Cyllid/masnachol
- Gwyddoniaeth
- Cyfathrebu / marchnata / gwasanaethu cwsmeriaid
- Cadwraeth/bioamrywiaeth amgylcheddol
- Rheoli tirwedd

Y Gymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer dau o'r swyddi ac yn ddymunol ar gyfer tri o'r swyddi.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Lleoliadau ym mhob rhan o Gymru
Ymrwymiad Amser:	36 diwrnod y flwyddyn
Cyfnod y swydd:	Penodiad cychwynnol o 2 neu 4 blynedd
Cydnabyddiaeth:	£350 y dydd a threuliau rhesymol

Cymhwysedd

Caiff unigolyn ei ddatgymhwyso o'i benodi os yw:

- a) Wedi'i farnu'n euog o unrhyw drosedd yn y 5 mlynedd flaenorol yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ac wedi'i ddedfrydu i garchar (wedi'i atal ai peidio) am gyfnod o dri mis neu fwy heb fod dewis o ddiryw;
- b) Yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdalau neu orchymyn dros dro neu wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant â chredydwy;

 - i. unigolion sydd wedi cael swydd flaenorol â chorff gwasanaethau iechyd wedi'i therfynu'n gynnar oherwydd nad oedd yn fanteisiol i fuddiannau neu reolaeth dda y corff fod yr unigolyn yn parhau yn y swydd
 - ii. unigolyn sydd wedi methu â mynd i gyfarfod y corff deirgwaith yn olynol
 - iii. unigolyn sydd wedi methu â datgan buddiant ariannol neu dynnu yn ôl o ystyried mater sy'n ymwneud â mater y mae gan yr unigolyn fuddiant ariannol ynddo
 - iv. camymddwyn neu fethu â chyflawni dyletswyddau
 - v. unrhyw un sy'n destun gorchymyn datgymhwyso o dan Ddeddf Datgymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986;

- c) Yn un o gyflogeion Cyfoeth Naturiol Cymru

Dylid datgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio'n sylweddol ar eich cais am benodiad ar y ffurflen gais yn yr adran Gwrthdaro Buddiannau.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod bod yn aelod o'r Corff yn eu datgymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Datgymhwyso) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sydd gennych a allai, neu y canfyddir eu bod yn gwrthdaro â swyddogaeth a chyfrifoldebau aelod o Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddogaethau ag awdurdod y tu hwnt i'r swyddogaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Caiff unrhyw wrthdaro buddiannau eu harchwilio yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd yn rhaid i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen hon ar gael yn:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Swyddogaeth a Chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru

Cefndir

Mae'r adnoddau naturiol sydd gennym yng Nghymru – ein coed, moroedd, bryniau, caeau, dŵr a bywyd gwylt – yn hanfodol ar gyfer ein dyfodol. Hebddynt, ni fyddai gennym aer glân i'w anadlu na dŵr i'w yfed. Maent yn un o brif ysgogwyr ein heconomi ac yn helpu i gynnal iechyd a llesiant ein pobl ac yn denu ymwelwyr i Gymru.

Mae galw cynyddol ar yr adnoddau hyn – gan ffactorau amgylcheddol fel newid yn yr hinsawdd, a chan ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Mae'n hanfodol felly sicrhau y caiff ein hadnoddau amgylcheddol eu rheoli yn y modd gorau posibl, i sicrhau gwerth am arian a chyflawni'r canlyniadau gorau. Mae angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n gynaliadwy, er mwyn peidio â gwastraffu asedau naturiol Cymru ac er mwyn eu cynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad cyntaf yn y byd sy'n tynnu ynghyd yr offer sydd eu hangen i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol. Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 pan unwyd cyfrifoldebau, asedau a staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Comisiwn Coedwigaeth Cymru dan enw Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn sgil hynny, hwn yw'r Corff mwyaf a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o gyfrifoldebau gweithredu a rheoleiddio, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r prif ymgynghorydd i Lywodraeth Cymru ar adnoddau naturiol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn atebol i Weinidogion Cymru trwy'r Gweinidogion Noddi (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a Gweinidog yr Amgylchedd ar hyn o bryd) ac yn destun craffu gan Bwyllgorau perthnasol y Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn arfer ei swyddogaethau deddfwriaethol yn briodol ac yn effeithiol. Mae hefyd yn atebol i Weinidogion Cymru am sut y mae'n cyflawni o'i gymharu â'r llythyr cylch gwaith blynyddol.

Swyddogaeth y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion statudol a rheolaeth ariannol wrth wneud penderfyniadau, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd masnachol yn llawn. Mae polisiau a gweithredoedd y Bwrdd yn cefnogi'r polisiau a'r gweithredoedd strategol ehangach a bennir gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac un ar ddeg o aelodau, ac un ohonynt yw'r Prif Weithredwr. Mae'n darparu arweinyddiaeth effeithiol, yn diffinio ac yn datblygu cyfeiriad strategol ac yn pennu amcanion heriol. Mae'r Bwrdd hefyd yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'n sicrhau y cyflawnir gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithlon ac yn effeithiol, trwy fonitro perfformiad Cyfoeth Naturiol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymru i sicrhau ei fod yn bodloni ei ddyletswyddau statudol, ac yn cyrraedd ei nodau, amcanion a thargedau perfformiad.

Mae'r Bwrdd, ar y cyd ac yn unigol, yn cadw at saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan, sef:

- Uniondeb;
- Anhunanoldeb;
- Gwrthrychedd;
- Atebolrwydd;
- Bod yn agored;
- Gonestrwydd; ac
- Arweinyddiaeth.

Yn ogystal ag egwyddorion Nolan, bydd angen i'r Bwrdd sicrhau hefyd bod y sefydliad yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn rhoi ar waith ddyletswydd llesiant, sef i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae elfennau allweddol hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod y sefydliad yn pennu amcanion llesiant, i gyfrannu at y saith nod llesiant sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf, ac yn cymryd camau (gan gynnwys trwy ddyrannu adnoddau) i fodloni'r amcanion hyn;
- Sicrhau bod y sefydliad yn ystyried yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy trwy wneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hir, ystyried dulliau o atal, ystyried dulliau integredig, cydweithredu â sefydliadau eraill a chynnwys rhanddeiliaid allweddol.

Ar y cyd, dylai'r Bwrdd feddu ar gyfuniad o sgiliau sy'n diwallu anghenion busnes presennol Cyfoeth Naturiol Cymru a'u nodau ar gyfer y dyfodol. Yn ddelfrydol, mae aelodau'r Bwrdd yn bobl ymarferol a strategol, a chanddynt meddwl cadarn, sy'n gallu cynnig adolygiad beirniadol, ac sy'n fedrus wrth roi arweiniad ac adborth uniongyrchol, yn ogystal â chefnogaeth pan fo'i hangen. Maen nhw'n mynegi eu barn ac yn cwestiynu yn hytrach na derbyn; maen nhw'n ddigon dewr i ofyn cwestiynau anodd mewn modd adeiladol ond gan fod yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad mawr a chymhleth y mae angen ei arwain o ddydd i ddydd gan y Weithrediaeth. Felly mae'n rhaid i aelodau'r Bwrdd fod â diddordeb mewn gwneud cyfraniad ystyrion i ddatblygiad sefydliadol a gallu ymdopi â'r pwysau o weithredu yn llygad y cyhoedd.

Dylai'r Bwrdd weithredu fel tîm a phan fydd penderfyniadau wedi'u gwneud mae'n rhaid i aelodau unigol ymddwyn yn golegol a chefnogi penderfyniadau'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd a'r swyddogion Gweithredol wrth iddyn nhw roi cyfarwyddyd y Bwrdd ar waith, ni waeth beth fo'r heriau.

Mae bod yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig cyfle i chi weithio gyda, ac ar ran pobl sy'n angerddol ynglŷn ag adnoddau naturiol Cymru ac rydym yn ceisio gwella'n barhaus i greu sefydliad sy'n perfformio'n dda ac sy'n cyflawni ei ddiben pwrpasol. I bob pwrpas, rydym yn chwilio am bobl ag uchelgais, egni a syniadau ac a all ymrwymo i fod yn bresennol mewn chwe chyfarfod Bwrdd y flwyddyn. Disgwylir i aelodau'r Bwrdd hefyd fod yn aelodau o is-bwyllgorau statudol sy'n cwrdd 4 - 6 gwaith y flwyddyn. Caiff y cyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus mewn gwahanol leoliadau ym mhob rhan o Gymru, ac mae'n bosibl y bydd angen llety dros nos ar

Cyfoeth Naturiol Cymru

gyfer rhai. Bydd cyfarfodydd Bwrdd eraill yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a fydd yn galluogi'r Bwrdd i ddatblygu fel tîm ac i drafod materion ar gam datblygu â'r swyddogion Gweithredol, er y caiff y rhain eu trefnu er mwyn lleihau'r goblygiadau teithio cymaint â phosibl i'r Bwrdd cyfan.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a yr ymgeiswyr er mwyn penderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf y swydd orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweiliad. Ni fydd y panel yn dibynnu ar unrhyw beth heblaw'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi yn eich CV a oes gennych y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Panel Annibynnol Rosie Varley a bydd hefyd yn cynnwys Tim Render, Cyfarwyddwr Arweiniol yr Amgylchedd a Materion Gwledig a Diane McCrea, Cadeirydd Adnoddau Naturiol Cymru. Defnyddir ymgynghorydd recriwtio i gefnogi'r broses ddethol gyfan.

Mae'n bosibl y caiff eich cais ei roi ar restr hir, yn amodol ar faint o geisiadau a ddaw i law, cyn ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth y panel sy'n creu'r rhestr fer. Dylech chi fod yn ymwybodol yn yr achos hwn na fydd y panel cyfan yn ystyried eich cais llawn o reidrwydd.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel yn gynnar i ganol mis Medi wedi penderfynu pwy a gaiff wahoddiad i gyfweiliad ddiwedd ym mis Medi.

Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio trwy gynllun gwarantu cyfweiliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, cewch chithau eich gwahodd i gyfweiliad.

Ein bwriad yw cynnal y cyfweiliadau yng Nghaerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn holi ynglŷn â'ch sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini swydd prawf swydd ar gyfer y swydd.

Caiff ymgeiswyr sy'n briodol i'w penodi ym marn y panel, yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'n bosibl y bydd y Gweinidog yn dewis cyfarfod â'r ymgeiswyr sy'n briodol i'w penodi cyn gwneud penderfyniad. Os bydd y Gweinidog yn penderfynu gwneud hyn, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr a bydd cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig yn bresennol. Bydd bwllch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol.

Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â Uned Penodiadau Cyhoeddus ar publicappointments@gov.wales.

Os nad ydych yn gwbl fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl, a thrin pob ymgeisydd â chwarteisi. Os oes gennych unrhyw gwynion ynglŷn â sut yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â Uned Penodiadau Cyhoeddus ar publicappointments@gov.wales.